# Cymraeg
# Modwl: ECAD6022
# BA3 - 2026-27

**Grŵp A – Darlith/Lecture 4 a 5**

Hydref 13eg 2026

**Eluned Owena Grandis**
e.grandis@pcydds.ac.uk

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

APLP
PDPA

# Presenoldeb BA3

## BA3 Attendance



# Nod Ac Amcanion
# Aims and Objectives

**Modwl: ECAD6022**
**BA3 - 2026-27**

- Cymraeg achlysurol – magu hyder
- Cyflwyniad adnoddau Peniarth a'r ystafell drochi

Oes newyddion gyda chi?

# Siaradwch, siaradwch, siaradwch!

- Wyt ti'n darllen yn aml?
- Beth wyt ti'n ei <u>dd</u>arllen ar hyn o bryd?
- Pryd wyt ti'n darllen?

- Wyt ti'n siopa ar y we?
- Ble wyt ti'n prynu dy <u>dd</u>illad / <u>l</u>yfrau?
- Beth ydy dy hoff siop?

- Wyt ti'n gwrando ar <u>g</u>erddoriaeth?
- Pa <u>f</u>ath o <u>g</u>erddoriaeth wyt ti'n ei hoffi?
- Pryd wyt ti'n gwrando ar gerddoniaeth?

- Wyt ti'n hoffi mynd allan am <u>f</u>wyd?
- Ble wyt ti'n mynd? Gyda <u>ph</u>wy?
- Ble mae dy hoff <u>f</u>wyty?

# Cynhesu gyda chardiau lŵp

# Cardiau fflach

# 6 idiom am deimladau

Rydw i ar ben y byd!

Rydw i'n hapus fel y gog!

Rydw i wedi blino'n lân!

Rydw i ar bigau'r drain!

Rydw i wedi cael llond bol!

Rydw i'n wyllt gacwn!

Maeddu'ch partner

# Cymraeg Bob Dydd!

*Everyday Welsh!*



# Geiriau Canmol *Words of Praise*

| | |
|---|---|
| **Da iawn, bawb!** | *Well done everyone!* |
| **Ardderchog, blant!** | *Excellent children!* |
| **Bendigedig!** | *Wonderful! / Great!* |
| **Arbennig!** | *Wonderful! / Great!* |
| **Ymdrech dda!** | *Good effort!* |
| **Ceisiwch eto!** | *Try again!* |
| **Gwaith gwych!** | *Great work!* |
| **Dal ati!** | *Keep at it!* |



# Ymadroddion Defnyddiol *Useful Phrases*

| | |
|---|---|
| **Wrth gwrs** | *Of course* |
| **Pam lai?!** | *Why not?!* |
| **Man a man!** | *Might as well!* |
| **Dim problem!** | *No problem!* |
| **Efallai** | *Maybe* |

| | |
|---|---|
| **Gobeithio** | *I hope so / Hopefully* |
| **O'r gorau!** | *Alright then! / Ok then!* |
| **Dim ots!** | *Doesn't matter!* |
| **Dyna ni!** | *There we are!* |
| **Dyna drueni!** | *That's a pity!* |



# **Ymadroddion Defnyddiol** *Useful Phrases*

| | |
|---|---|
| **Syniad da!** | *Good idea!* |
| **Dw i'n hoffi dy / eich ateb!** | *I like your answer!* |
| **Cwestiwn da!** | *Good question!* |
| **Ateb da!** | *Good answer!* |
| **Ateb cywir!** | *Correct answer!* |



# Help Llaw - Gorchmynion

| | | |
|---|---|---|
| Eistedd**wch**<br>Cerdd**wch**<br>Sef**wch**<br>Bwyt**wch** | yn **d**awel<br>yn araf<br>yn **g**yflym | blant.<br>bawb.<br>ferched.<br>fechgyn.<br>Flwyddyn 1.<br>Mrs Evans. |
| Eistedd**a**<br>Cerdd**a**<br>Sef**a**<br>Bwyt**a** | | Tom.<br>Sali. |
| | | |
| Ewch<br>Dewch<br>Gwnewch<br>Byddwch | allan<br>yma<br>y gwaith<br>yn **o**falus | blant.<br>bawb.<br>ferched.<br>fechgyn.<br>Flwyddyn 1.<br>Mrs Evans. |
| Cer<br>Dere<br>Gwna<br>Bydda | allan<br>yma<br>y gwaith<br>yn **o**falus | Tom.<br>Sali. |

Mae rhai berfau yn aros yr un peth:

**siarad, darllen**

Berfenwau yn gorffen gyda –**io**: dileu'r –**o**

Berfenwau yn gorffen gyda –**eg**: dileu'r –**eg**

Berfenwau yn gorffen gyda –**ed**: dileu'r –**ed**

Edrychwch arna i

Gwrandewch arna i

Edrychwch ar y bwrdd gwyn

Dwedwch ar fy ôl i

Ailadroddwch

# **Agor y wers** *Lesson openers*

| | |
|---|---|
| **Croeso i'r wers ……<br>(Gymraeg / Fathemateg / Saesneg)** | *Welcome to the ….. lesson.<br>(Welsh / Mathematics / English)* |
| **Edrychwch arna i.** | *Look at me.* |
| **Gwrandewch arna i.** | *Listen to me.* |
| **Edrychwch ar y bwrdd gwyn.** | *Look at the whiteboard.* |
| **Agorwch eich llyfrau.** | *Open your books.* |
| **Ysgrifennwch y dyddiad.** | *Write the date.* |
| **Ewch i dudalen …** | *Go to page …* |



# **Nod y wers** *Aim of the lesson*

| | |
|---|---|
| **Nod y wers ydy …**<br>*The aim of the lesson is to …* | **dysgu cyfrif yn Gymraeg.**<br>*learn how to count in Welsh.* |
| | **dysgu am y Celtiaid.**<br>*learn about the Celts.* |
| | **adolygu rhifau yn Gymraeg.**<br>*revise numbers in Welsh.* |
| **Nod y wers heddiw ydy …**<br>*The aim of today's lesson is to …* | **dysgu am y tywydd.**<br>*learn about the weather.* |
| | **ysgrifennu llythyr.**<br>*write a letter.* |
| | **dysgu'r Wyddor Gymraeg.**<br>*learn the Welsh Alphabet.* |



# **Nod y wers** *Aim of the lesson*

| | |
|---|---|
| **Heddiw, rydych chi'n mynd i...**<br>*Today, you are going to ...* | **redeg.**<br>*run.* |
| | **beintio.**<br>*paint.* |
| | **ganu.**<br>*sing.* |
| | **wylio rhaglen deledu.**<br>*watch a tv programme.* |
| | **goginio bisgedi.**<br>*cook biscuits.* |
| | **ddysgu am Kyffin Williams.**<br>*learn about Kyffin Wiliams.* |



# Yn ystod y wers *During the lesson*

| | |
|---|---|
| **Pawb yn barod?** | *Everyone ready?* |
| **Ydych chi'n barod?** | *Are you ready? (plural)* |
| **Pawb yn hapus?** | *Everyone happy?* |
| **Ydych chi'n hapus?** | *Are you happy? (plural)* |
| **Oes problem?** | *Is there a problem?* |
| **Oes cwestiwn?** | *Any questions?* |



# Ar ddiwedd y wers *At the end of the lesson*

| | |
|---|---|
| **Gorffennwch eich gwaith.** | *Finish your work.* |
| **Ysgrifennwch y gwaith cartref.** | *Write the homework.* |
| **Caewch eich llyfrau.** | *Close your books.* |
| **Tacluswch yn gyflym!** | *Tidy up quickly!* |
| **Sefwch yn dawel!** | *Stand quietly!* |
| **Diolch yn fawr, bawb!** | *Thank you very much everyone!* |
| **Diolch am weithio mor galed!** | *Thank you for working so hard!* |
| **Hwyl fawr!** | *Goodbye!* |
| **Gwela i chi yfory!** | *See you tomorrow!* |

**Patrymau Iaith Meithrin a Derbyn**

**Nursery and Reception Language Patterns**

| | |
|---|---|
| **Pwy wyt ti?**<br>Who are you? | **… dw i.**<br>I am … |
| **Sut wyt ti?**<br>How are you? | **Dw i'n …**<br>I am … |
| **Ga i … os gwelwch yn dda?**<br>May I have … please? | **Cei / Na chei**<br>Yes / No |
| **Sut mae'r tywydd heddiw?**<br>How is the weather today? | **Mae hi'n … heddiw.**<br>It is … today. |
| **Pa liw?**<br>What colour? | **coch / glas / melyn / gwyrdd**<br>red / blue / yellow / green |
| **Pa rif?**<br>What number? | **un / dau / tri / pedwar**<br>one / two / three / four |
| **Sawl un?**<br>How many? | **un / dau / tri / pedwar**<br>one / two / three / four |
| **Beth wyt ti'n wisgo?**<br>What are you wearing? | **Dw i'n gwisgo …**<br>I'm wearing … |
| **Beth wyt ti'n hoffi?**<br>What do you like? | **Dw i'n hoffi …**<br>I like … |
| **Beth sy'n bod?**<br>What's the matter? | **Mae pen / bola tost gyda fi.**<br>I've got bad head / stomach. |
| **Wyt ti'n hoffi …?**<br>Do you like …? | **Ydw, dw i'n hoffi …**<br>Yes, I like … |
| **Beth sy yn …?**<br>What is in …? | **Mae … yn y bocs / fasged.**<br>There is a … in the box / basket. |
| **Pa fis?**<br>What month? | **Mis …**<br>… |
| **Pa ddydd?**<br>What day? | **Dydd …**<br>…day |
| **Ble mae'r …?**<br>Where is the …? | **Dyma'r …**<br>Here is the … |

# Suggested Language Patterns for Nursery and Reception

Patrymau Iaith Blwyddyn 1 a 2

Year 1 and 2 Language Patterns

| | |
|---|---|
| Pwy wyt ti?<br>Who are you? | … dw i.<br>I am … |
| Sut wyt ti?<br>How are you? | Dw i'n …<br>I am … |
| Ble wyt ti'n byw?<br>Where do you live? | Dw i'n byw yn …<br>I live in … |
| Ga i … os gwelwch yn dda?<br>May I have … please? | Cei / Na chei<br>Yes / No |
| Beth ydy dy oed di?<br>What is your age? | Dw i'n … oed.<br>I am … years old. |
| Faint ydy dy oed di?<br>How old are you? | Dw i'n … oed.<br>I am … years old. |
| Sut mae'r tywydd heddiw?<br>How is the weather today? | Mae hi'n … heddiw.<br>It is … today. |
| Ydy hi'n …?<br>Is it …? | Ydy, mae hi'n …<br>Yes, it is … |
| Ydy hi'n …?<br>Is it …? | Nac ydy, dydy hi ddim yn …<br>No, it is not … |
| Pa liw?<br>What colour? | coch / glas / melyn / gwyrdd<br>red / blue / yellow / green |
| Pa rif?<br>What number? | un / dau / tri / pedwar<br>one, two, three, four |
| Sawl un?<br>How many? | un / dau / tri / pedwar<br>one, two, three, four |
| Beth wyt ti'n wisgo?<br>What are you wearing? | Dw i'n gwisgo …<br>I'm wearing … |
| Beth wyt ti'n hoffi?<br>What do you like? | Dw i'n hoffi …<br>I like … |
| Beth dwyt ti ddim yn hoffi?<br>What don't you like? | Dw i ddim yn hoffi …<br>I don't like … |

# Suggested Language Patterns for **Year 1 / Year 2**

Patrymau Iaith Blwyddyn 1 a 2

Year 1 and 2 Language Patterns

| | |
|---|---|
| Beth sy'n bod?<br>What's the matter? | Dw i'n dost.<br>I am ill. |
| Beth sy'n bod?<br>What's the matter? | Mae … tost gyda fi.<br>I have a bad/sore … |
| Oes … gyda ti?<br>Have you got …? | Oes, mae … gyda fi.<br>Yes, I have a … |
| Oes … gyda ti?<br>Have you got …? | Nac oes, does dim … gyda fi.<br>No, I don't have a … |
| Wyt ti'n hoffi …?<br>Do you like? | Ydw, dw i'n hoffi …<br>Yes, I like… |
| Wyt ti'n hoffi …?<br>Do you like …? | Nac ydw, dw i ddim yn hoffi …<br>No, I don't like … |
| Pwy sy'n hoffi …?<br>Who likes …? | Fi / … sy'n hoffi …<br>Me / … likes … |
| Beth sy yn y fasged?<br>What's in the basket? | Mae … yn y fasged.<br>There is a/an … in the basket. |
| Ble est ti?<br>Where did you go? | Es i i …<br>I went to … |
| Ble est ti?<br>Where did you go? | Es i i'r …<br>I went to the … |
| Beth gest ti?<br>What did you have? | Ces i …<br>I had … |
| Beth welaist ti?<br>What did you see? | Gwelais i …<br>I saw … |
| Pa fis ydy hi?<br>What month is it? | Mis …<br>… |
| Pa ddydd ydy hi?<br>What day is it? | Dydd …<br>…day |
| Ble mae …?<br>Where is …? | Mae … yn y …<br>… is in the … |
| Ble mae'r …?<br>Where is the …? | Mae'r … yn y …<br>The … is in the … |

# Iaith y Dosbarth

## Ymadroddion Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Ga i un? | *May I have one?* |
| Eto os gwelwch yn dda. | *Again please.* |
| Unwaith eto. | *Once again.* |
| Mae'n flin 'da fi. | *I'm sorry.* |
| Esgusodwch fi. | *Excuse me.* |
| Beth ydy … yn Gymraeg? | *What is … in Welsh?* |
| Does dim ots. | *It doesn't matter.* |
| Yn araf, os gwelwch yn dda. | *Slowly, please. (sing.)* |
| Yn araf, os gweli di'n dda. | *Slowly please (pl.)* |
| Wyt ti eisiau…? | *Do you want…? (sing.)* |
| Ydych chi eisiau..? | *Do you want…? (pl.)* |
| Wnei di..? | *Will you? (sing.)* |
| Wnewch chi…? | *Will you? (pl.)* |
| Wyt ti wedi gorffen? | *Have you finished? (sing.)* |
| Ydych chi wedi gorffen? | *Have you finished? (pl.)* |
| Pwy sy'n cofio? | *Who remembers?* |
| Tro pwy sy' nesaf | *Who's turn is it next?* |
| Dy dro di / eich tro chi | *Your turn.* |

| Unigol (Sing.) / Lluosog (Pl.) | |
|---|---|
| Brysia | *Hurry up* |
| Brysiwch | |
| Cer | *Go* |
| Ewch | |
| Dere | *Come* |
| Dewch | |
| Gwranda | Listen |
| Gwrandewch | |
| Golcha | Wash |
| Golchwch | |
| Cerdda | Walk |
| Cerddwch | |
| Tro | Turn |
| Trowch | |
| Eistedda | Sit |
| Eisteddwch | |
| Ysgrifenna | Write |
| Ysgrifennwch | |

| **Nod y wers** *(Lesson aim)* | |
|---|---|
| Nod y wers heddi ydy … | *The aim of today's lesson is…* |
| Heddiw rydyn ni'n mynd i… | *Today we are going to…* |
| Yn y wers yma, byddwn ni'n adolygu… | *In this lesson, we'll be revising…* |
| Y bore 'ma rydw i eisiau i chi feddwl am… | *This morning, I want you to think about…* |
| ***Cloi gwers*** *(Ending a lesson )* | |
| Ydych chi wedi mwynhau? | *Have you enjoyed?* |
| Beth rydych chi wedi fwynhau? | *What have you enjoyed?* |
| Beth rydych chi wedi ddysgu? | *What have you learnt?* |
| Ydych chi'n cofio…? | *Do you remember…?* |

# Prynhawn aur

| | |
|---|---|
| Athrawes: | Y prynhawn ‘ma, rydych chi’n mynd i ddewis beth rydych chi eisiau wneud. |
| Emily: | O gwych! |
| Athrawes: | Peintiwch lun os ydych chi eisiau. |
| Matt: | Gwych. Dw i’n hoffi tynnu lluniau. |
| Rhys: | Dw i ddim eisiau peintio llun. |
| Athrawes: | Darllenwch lyfr os ydych chi eisiau. |
| Rhys: | Dw i ddim eisiau darllen llyfr. |
| Athrawes: | Defnyddiwch gardiau iaith i chwarae gêm os ydych chi eisiau. |
| Rhys: | Dw i ddim eisiau chwarae gêm iaith. |
| Athrawes: | Gwyliwch glip o’r *Pod-antur Cymraeg* os ydych chi eisiau. |
| Rhys: | Dw i ddim eisiau gwylio fideo. |
| Athrawes: | Gwnewch fodel os ydych chi eisiau. |
| Rhys: | Dw i ddim eisiau gwneud model. |
| Athrawes: | Rhys, beth wyt ti eisiau wneud? |
| Rhys: | Mmm?!? |

Eich tro chi!

# Diolch